

## PUDDICOMBE, ANNE ADALISA ('Allen Raine'; 1836 - 1908), nofelydd

**Enw:** Anne Adalisa Puddicombe  
**Ffugenw:** Allen Raine  
**Dyddiad geni:** 1836  
**Dyddiad marw:** 1908  
**Priod:** Beynon Puddicombe  
**Rhiant:** Benjamin Evans  
**Rhiant:** Letitia Grace Evans (née Morgan)  
**Rhyw:** Benyw  
**Galwedigaeth:** nofelydd  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** David Jenkins

Ganwyd 6 Hydref 1836 yn Bridge Street, Castellnewydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin, yn blentyn hynaf Benjamin a Letitia Grace Evans. Cyfreithiwr oedd ei thad, ac yn wŷr i **David Davis**, Castell Hywel, ac yr oedd ei mam yn ferch i Thomas Morgan, meddyg o Gastellnewydd, ac yn wŷres i **Daniel Rowland**, Llangeitho.

Yn ei mebyd aeth i ysgol i Gaerfyrddin, ac o 1849 hyd 1851 addysgwyd hi gyda theulu Henry Solly, gweinidog gyda'r Undodiaid yn Cheltenham. Rhwng 1851 a 1856 bu'n byw gyda chwaer iddi yn Southfields, ger Wimbledon. Dysgodd Ffrangeg ac Eidaleg, ac yr oedd yn gerddor medrus. Dychwelodd i Gymru yn 1856, ac yno y treuliodd y 16 mlynedd dilynol.

Ar 10 Ebrill 1872, yn eglwys Penbryn, Sir Aberteifi, priododd Beynon Puddicombe, cynrychiolydd tramor ariandy Smith Payne, Llundain. Aethant i fyw i Addiscombe ger Croydon am yr wyth mlynedd dilynol, ac yna i Winchmore Hill, swydd Middlesex. Ym mis Chwefror 1900, oherwydd afiechyd meddwl ei phriod, symudodd i Bronmor, Traethsaith, Sir Aberteifi, ac yno, 29 Mai 1906, y bu ef farw. Yno y bu hithau hefyd farw ar 21 Mehefin 1908. Claddwyd hwynt ill dau ym mynwent eglwys Penbryn.

Yn ei hieuentid cyhoeddodd gyda chymorth ychydig o ffrindiau llengar gyfnodolyn yn dwyn y teitl *Home Sunshine*, a argraffwyd yng Nghastellnewydd Emlyn, ond byrhoedlog fu. Yn 1894 rhannodd hanner y wobr yn eisteddfod genedlaethol Caernarfon am stori-gyfres gyda chefnidir Cymreig, a chyhoeddwyd hi yn y *North Wales Observer* o dan y teitl 'Ynysoer.' Ym mis Mehefin 1896 gorfennodd sgrifennu nofel a alwodd yn *'Mifanwy,'* ond wedi'i gwrthod gan chwe chyhoeddwr newidiodd y teitl i *A Welsh Singer*, gan 'Allen Raine,' a chyhoeddwyd hi ym mis Awst 1897. Trosodd hon yn ddrama, ond unwaith yn unig y perfformiwyd hi. Ar ôl hyn cynhyrchoedd un nofel ar ôl y llall, sef *Torn Sails*, 1898; *By Berwen Banks*, 1899; *Garthowen*, 1900; *A Welsh Witch*, 1902; *On the Wings of the Wind*, 1903; *Hearts of Wales*, 1905; and *Queen of the Rushes*, 1906 (a gynnwys ddiwyddiadau o ddiwygiad 1904 a 1905). Ar ôl ei marw cyhoeddwyd *Neither Store-house nor Barn*, 1908 (a ymddangosasai eisoes yn 1906 fel stori-gyfres yn y *Cardiff Times*); *All in a Month*, 1908 (stori yn ymwneud ag afiechyd ei gwŷr); *Where Billows Roll*, 1909; *Under the Thatch*, 1910 (stori yn ymwneud â'r cancr a fu'n achos angau i'r awdur). Yn 1909 cyhoeddwyd *An Allen Raine Birthday Book*. Sgrifennodd nifer o straeon i gylchgronau, ac yn **Wales**, 1897, cyf. iv, cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg ganddi o 'Alun Mabon' (**Ceiriog**).

### Awdur

**Dr David Jenkins**, (1912 - 2002)

### Ffynonellau

D. L. Thomas, Puddicombe, Mrs. Anne Adalisa, writing under the pseudonym of Allen Raine (1836-1908) *Oxford Dictionary of National Biography*, 1912

*South Wales Daily News*, 23 Mehefin 1908

*Western Mail*, 23 Mehefin 1908

*Yr Ymfynydd*, Medi 1908

*Wales, the National Magazine for the Welsh People*, Mai 1911

### Darllen Pellach

Juliet Larsen, *Allen Raine - a distinctive female voice in Wales*

Sally Roberts Jones, Puddicombe [née Evans], Anne Adalisa [pseud. Allen Raine] (1836-1908) *Oxford Dictionary of National Biography*, 2004

Erthygl Wicipedia: Allen Raine

### Gweithiau

Allen Raine, *A Welsh singer* (London 1897)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 75356354

Wikidata: Q4731836

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, D., (1953). PUDDICOMBE, ANNE ADALISA ('Allen Raine'; 1836 - 1908), nofelydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PUDD-ADA-1836>



Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LG C  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION

